

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

322 - Beirniadaeth Bardodniaeth Bl.2 ac iau

Beirniad: Anni Llŷn

Pleser o'r mwyaf oedd darllen cerddi aelodau fenga'r Urdd. Llawn egni, hwyl ac anwyldeb. Pob un wedi llwyddo i sgwennu cerdd gyflawn a hoffus – tipyn o gamp mewn cystadleuaeth lle roedd hanner cant wedi cystadlu. Daliwch ati bob un ohonoch i farddoni!! Daeth Caio Roberts a Bonnie Hotchkiss yn agos iawn i'r brig ond dyma'r canlyniad:

Yn cael y wobwr gyntaf mae Anni Collins am gerdd llawn cymeriad. Ro'n i'n chwerthin wrth feddwl am Elsa ac Anna yn y toiled a'r diwedd glo direidus yn annog pawb i fynd i wneud jig-sô o dan y bwrdd, er fod mam yn cwyno fod tegannau ym mhob man!! Roedd Anni wedi defnyddio technegau hyfryd fel yr odl a chyflythrennu ac roedd y cyfan yn llifo'n rhwydd ac yn ychwanegau at hwyl y gerdd. Gwych iawn!

Yn cael yr ail wobwr mae Beca Davies. Roedd y gerdd yn llawn dychymyg gwych am Cadi yn breuddwydio am yr anifeiliaid yn chwarae yn y nos. Roedd y diwedd glo'n chwareus gan awgrymu efallai nad breuddwyd oedd y cyfan. Ro'n i'n hoff iawn o'r disgrifiad o Tadcu yn "chwyrnu fel baedd". Da iawn ti!

Yn drydydd mae Oscar Jones. Cerdd fer, gynnill ond hynod gofiadwy. Roedd rhywbeth gwreiddiol iawn am y gerdd yma yng nghanol y gweddill i gyd, gallaf dychmygu'r bennill ar boster yn annog plant i chwarae efo'u gilydd! Da iawn Oscar am ddal nôl rhag sgwennu mwy...tipyn o gamp yw gwybod pryd mae ychydig o eiriau yn ddigon!

1af – Anni Collins

2il – Beca Davies

3ydd – Oscar Jones